**Adroddiad Blynyddol Amlosgfa Llwydcoed 2023/24 – Hysbysiad Archwilio**

Mae Rheoliad 15(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd) yn gofyn bod Cydbwyllgor Amlosgfa Llwydcoed yn trafod a chymeradwyo'r datganiad blynyddol yn ystod cyfarfod gyda'r Aelodau i gyd erbyn 31 Mai, yn syth ar ôl diwedd y flwyddyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei disgwyliad o ran amserlen estynedig ar gyfer ardystio ac archwilio cyfrifon ariannol statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 (ar 30 Mehefin a 30 Tachwedd yn y drefn honno) ac ar gyfer blynyddoedd dilynol a bydd yn ceisio ymgynghori ar y rheoliadau a gwneud diwygiadau iddyn nhw. Yn y cyfamser, mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i gyrff gyhoeddi'r datganiad yma (yn unol â rheoliad 10(4)).

Mae'r Awdurdod wedi diwygio ei amserlen yn unol â hynny. Yn unol â hyn, rhagwelir y bydd Datganiad Blynyddol yn cael ei baratoi a'i ardystio erbyn 30 Mehefin 2024.